



Gofal 3 – Ymadael â'r ysbyty

Pan fydd eich perthynas mewn cyflwr meddygol sefydlog ac unrhyw anafiadau corfforol wedi eu trin, fe allen nhw fod yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae nifer o ddewisiadau ar gael ar gyfer eu cam nesaf ac mae'n bwysig iawn y cytunir ar y llwybr gofal cywir a'i drefnu cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r adran hon o'r llyfryn yn rhoi braslun o'r broses ryddhau, y dewisiadau ar gyfer y llwybr gofal a sut maen nhw'n cael eu darparu a'u hariannu. Ar adeg ysgrifennu hyn (Tachwedd 2012), mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr yn mynd trwy broses o newid. Bydd Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn cael eu diddymu o fis Ebrill 2013 a bydd eu swyddogaeth mewn comisiynu gwasanaethau gofal iechyd yn cael ei rhoi i Grwpiau Comisiynu Clinigol. Dylai'r Grwpiau Dirprwyo Clinigol a/neu gynghorau lleol fod yn gyfrifol am ariannu'r gwasanaethau a nodir yn yr adran hon. At ddibenion y llyfryn hwn, bydd pob un sydd yn ariannu gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu galw yn "comisiynwyr gofal iechyd".

Y broses ryddhau

Cyn rhyddhau, dylai iechyd ac anghenion cymdeithasol eich perthynas gael eu hasesu gan un neu ragor o weithwyr iechyd proffesiynol. Yna, dylid cael cyfarfod i drafod llwybr gofal a'i ariannu. Dylai staff gwasanaethau cymdeithasol fod yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â staff ysbyty neu adsefydlu, aelodau teulu agos, ac o bosibl y meddyg teulu. Gellir paratoi cynllun ysgrifenedig gyda chopi i'w anfon at y meddyg teulu, a byddwch chi'n gallu gofyn am gopi ohono hefyd.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr bod y broses ryddhau yn cael ei chyflawni yn iawn er mwyn sicrhau bod y llwybr gofal cywir wedi ei drefnu ac fe all fod o ddefnydd i chi gael rhywun annibynnol yno i siarad o'ch plaid chi. Eto, gall y Gwasanaeth Cyngor a Chydgysylltiad i Gleifion (PALS) neu'r gwasanaeth arall cyfatebol yn eich ardal chi eich helpu yn hyn o beth. Gall Grwpiau a Changhennau Headway eich cefnogi ambell waith ar y cam hwn. Felly, os hoffech gael rhywun i siarad o'ch plaid chi fe allech ofyn i'r Grŵp Lleol. Gall y Ganolfan Cyngor ar Bopeth hefyd roi manylion i chi am unrhyw wasanaethau eirioli lleol. Gallwch drafod y dewisiadau hyn i gyd a dod o hyd i ffynonellau cefnogaeth lleol eraill drwy ffonio llinell gymorth Headway.

Asesu ac ariannu gofal

Bydd pecyn gofal eich perthynas yn cael ei asesu a'i ariannu drwy un o'r dulliau canlynol:

Gofal Iechyd Parhaus

Os yw anghenion gofal pennaf eich perthynas yn gysylltiedig ag iechyd, fe allen nhw fod â'r hawl i dderbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, sydd yn becyn gofal cyflawn wedi ei



ariannu gan y GIG.

Os penderfynir bod hawl gan eich perthynas i dderbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, yna fe ddylai'r comisiynwyr gofal iechyd gynnal asesiad amlddisgyblaeth o'u hanghenion. Bydd angen trafod wedyn sut bydd eu hanghenion a'u gofal yn cael eu rheoli a'r sefydliadau a fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.

Gofal yn y Gymuned

Os nad yw anghenion eich perthynas yn bodloni meini prawf Gofal Iechyd Parhaus y GIG, fe allen nhw fod â'r hawl i gael pecyn ar y cyd o Ofal Iechyd a Gofal yn y Gymuned. Mae hyn yn golygu y bydd y GIG a'r awdurdod lleol yn rhannu'r cyfrifoldeb am ariannu gwasanaethau gofal. Fel arall, fe allen nhw dderbyn pecyn Gofal yn y Gymuned, wedi ei ariannu gan yr awdurdod lleol ar ei ben ei hun.

Yn ôl y Ddeddf GIG a Gofal yn y Gymuned (1990), mae'n rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr gynnal asesiad gofal yn y gymuned ar gyfer unrhyw un y mae'n ymddangos bod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned arno. Mae rheolau tebyg yn bodoli yng ngweddill y DU. Pan fydd asesiad wedi ei gwblhau, bydd yn rhaid i'r awdurdod benderfynu a yw anghenion eich perthynas yn golygu y bydd ganddo hawl i ddarpariaeth gwasanaethau. Gall awdurdodau iechyd osod eu meini prawf cymhwyster eu hunain ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau, ond lluniwyd y Canllawiau Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal (FACS) gan yr Adran Iechyd i sicrhau mwy o degwch a chysondeb yn y broses hon.

Os bydd eich perthynas yn bodloni'r meini prawf cymhwyster, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer. Gall yr adran gwasanaethau cymdeithasol reoli'r gwasanaethau neu, fel arall, gall eich perthynas ddewis derbyn taliadau uniongyrchol, i'w defnyddio i reoli a thalu am ei ofal ei hun.

Mae'n bwysig bod gan y sawl sy'n gwneud yr asesiad wybodaeth, neu fod rhywun yn rhoi gwybod iddo, am effeithiau'r anaf i'r ymennydd ar eich perthynas, yn arbennig y rhai sy'n gudd neu'n ddirgel eu natur. Fe allai fod yn ddefnyddiol ichi gadw cofnod o anawsterau eich perthynas neu ddyddiadur fel eich bod yn gallu eu trafod yn ystod yr asesiad.

Gwahaniaethau yn y DU

Mae'r wybodaeth uchod am Ofal Iechyd Parhaus a Gofal yn y Gymuned yn gymwys i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac, i raddau helaeth, yr Alban er bod yna rai gwahaniaethau o ran meini prawf a darpariaeth gwasanaethau. Yn yr Alban, lle nad yw meini prawf ar gyfer Gofal Parhaus wedi eu diffinio mor fanwl, dylai fod hawl gan unrhyw un ag anghenion sy'n gysylltiedig â'i iechyd i dderbyn gofal personol am ddim gan yr awdurdod lleol.



Herio penderfyniad

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed yn ystod asesiad, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael copi ohono a'r rhesymau pam na ellir cynnig y cymorth. Mae'r hawl gennych i herio comisiynwyr gofal iechyd neu awdurdod lleol, yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio eu gweithdrefn gwyno.

Llwybrau gofal

Cyn gynted ag y bo anghenion eich perthynas wedi eu nodi, dylai'r comisiynwyr gofal iechyd a/neu'r awdurdod lleol roi braslun ohonyn nhw mewn cynllun gofal. Dylid adolygu'r cynllun o fewn tri mis i sefydlu'r gofal ac yn flynyddol wedi hynny. Os bydd anghenion eich perthynas yn newid yn ystod yr amser hwnnw, mae'n bwysig ichi ofyn am adolygiad. Dylai eich perthynas dderbyn un neu ragor o'r dewisiadau sy'n dilyn:

- Adsefydlu cleifion mewnol
- Adsefydlu cleifion allanol
- Adsefydlu yn y gymuned
- Gofal preswyl/nyrsio
- Gofal canolraddol
- Gwasanaethau gofal yn y gymuned